CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 8fed o ORFFENNAF 2024** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Terry Jones - Cadeirydd

Cyng. Margaret Thomas
Cyng. John Lee
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry
Cyng. Christine Roberts
Cyng. R. Alwyn Parry

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir :
Cyng. Nicola Roberts (Rhithiol)
Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms. Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio
Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyngor Llawn.

24/084 Ymddiheuriadau : Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Henry D. Jones
Cyng. Non W. Parry, Cyng. Eleri Ll. Burns.
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees, Geraint Bebb, Non Dafydd.

24/085 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

24/086 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd
1 Clerc yn adrodd bydd PCSO's lleol yn galw i'r Swyddfa o bryd i'w gilydd i edrych ar ffilmiau'r Camerâu CCTV. Dim trafodaeth bellach.

24/087 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 10.06.2024 :
Cyng. J. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/088 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 10.06.2024 :
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa ac wedi dwyn sylw ar y canlynol :
Eitem 24/057.4 - Difrod Y Llys : Clerc yn esbonio fod y difrod i'r ffenestri wedi digwydd ar ddau achlysur ar wahân a bod dau Rif Digwyddiad wedi'u derbyn gan yr Heddlu. Disgwyl diweddariad gan y Cwmni Yswiriant am y cais.
Eitem 24/061.3 – Cysgodfan Bws, Stryd Fawr : Dim sedd ar y safle yma. Clerc yn egluro fod gwelliannau i'r Cysgodfan yma yn rhan o brosiect gwreiddiol y Cyngor Sir, erbyn hyn, nid

PARHAD 24/088

oes cyllideb i gwblhau'r cynllun. Cyng. Lewis yn datgan dylid fod sedd o fewn y cysgodfan ar gyfer y trigolion. Nodwyd sylwad Cyng. Lewis.

24/089 Cynllunio :

I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 10.06.2024 :

Cyng. J. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

24/090 I Dderbyn Argymhellion Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024 :

Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. R. Alwyn Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/091 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 24.06.2024 :

Cyfarfod wedi ei ohirio oherwydd bod Dim Quorum.

24/092 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer :

Y Maer, Cyng. Terry Jones, yn adrodd ar y canlynol :

1 **Gwahoddiad : Digwyddiad Gwybodaeth Awtistiaeth 12.06.2024 :** Sesiwn "Galw i Mewn" diddorol iawn yn llawn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r wahanol gyfnodau o Awtism. Digon o daflenni gwybodaeth ar gael a thri Therapist yn ateb cwestiynau.

24/093 Materion yn codi gan Aelodau : Dim Ceisiadau ysgrifenedig wedi'u derbyn trwy'r Swyddfa.

24/094 Adroddiad y Clerc:

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Capel y Fynwent, Lon Newydd :** Adeiladwr bron iawn wedi cwblhau'r gwaith atgyweirio tu mewn i'r Capel. Bydd y gwaith i dacluso'r to tu allan, ac ail-osod llechi yn cychwyn yn ystod y dyddiau nesaf . Dim trafodaeth bellach.

2 **Ystafelloedd Newid, Lon Newydd : Gwaith Cynnal a Chadw : (Wedi ei nodi o dan Eitem 24/096.4 o'r Rhaglen) :** Aelodau wedi cael cyfle yn ystod Cyfarfod Ymweliad Safle Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024, i archwilio'r gwaith. Darllenwyd y Clerc amcangyfrif o gost y gwaith gwelliant a dderbyniwyd gan yr Adeiladwr, sef £2,650, sydd ar hyn o bryd yn y broses o gwblhau'r gwaith ar Gapel y Fynwent. Eglurodd y Clerc y manteision o ddefnyddio'r un Adeiladwr er mwyn arbed costau ail-logi sgaffaldiau,a.y.b., ac yn gallu gwneud y gwaith ar unwaith. Holodd Cyng. John Lee faint o amcangyfrif eraill oedd wedi eu derbyn, Clerc yn ymateb, oherwydd y rhesymau uchod, dim ond un.

6.40 y.h. Cyng. J. Egryn Lewis yn cyrraedd y Cyfarfod

Cyng. Christine Roberts yn datgan dylid derbyn dau Amcangyfrif arall fel cymhariaeth. Rhai Aelodau yn cefnogi awgrymiad Cyng. Roberts a Cyng. Victor Hughes yn datgan gallai weld safbwynt y Clerc, fodd bynnag, dylid fod amcan bris eraill wedi eu cyflwyno cyn dod i benderfyniad. Yn dilyn trafodaeth, ac oherwydd barn gymysg, gofynnwyd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddangos dwylo, i symud ymlaen i dderbyn tri amcangyfrif am y gwaith. Mwyafrif o blaid, a Cyng. Roberts yn adrodd dylid derbyn tri phris am unrhyw waith.

Yn dilyn o'r uchod, **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc weithredu ar hyn a bwrw ymlaen i dderbyn tri amcangyfrif. Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu dylid bod pwynt terfyn o saith diwrnod ar dermau ac amodau'r amcan bris. Dim trafodaeth bellach.

PARHAD 24/094

3 **Cae Criced :** Aelodau wedi cael cyfle yn ystod Cyfarfod Ymweliad Safle Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024, i gael golwg o gwmpas y cae a'r Clwb Bocsio. Clerc yn adrodd fod tair coeden ar derfyn y cae wedi mawr o afiechyd a bydd yn cael eu torri i lawr maes o law. **Derbyn**

4 **Clwb Pêl Droed, Lon Talwrn :** Cyng. Ieuan Davies, Cynrychiolydd Pwyllgor Clwb Pêl Droed, yn gofyn ar ran y Pwyllgor, os byddai unrhyw wrthwynebiad i'r Clwb gymryd y Cytundeb Trydan ymlaen eu hunain. Mae'r Cytundeb ar hyn o bryd gyda British Gas. Aelodau i gyd yn cytuno i gais y Clwb a rhoddwyd awdurdod i Cyng. Davies drosglwyddo'r wybodaeth yma i'r Clwb. **PENDERFYNWYD** fod dim gwthwynebydd i'r cais uchod.

5 **Cymdeithas Elusennol Ynys Môn :** Gwaith ar y gweill i fynd trwy ofynion Cam 2 o'r cais am grant ar gyfer prynu offer anabl i Faes Chwarae Maes Hyfryd. Cyn. John Lee yn holi os ydyw Mencap yn ymwybodol o'r cais. Clerc yn ymateb ei fod wedi cyfathrebu gyda Chynrychiolydd Mencap yn ddiweddar. Dim trafodaeth. **Derbyn**

6 **Adborth ar Gyfer Ffyrdd 20mya :** Llythyr Ken Skates,AS, Llywodraeth Cymru,17.05.2024. ar Derfyn Cyflymder 20mya, wedi'i gyflwyno i'r Aelodau. Clerc wedi anfon adborth yn ôl yn argymell newid cyfyngiadau yn ôl i 30mph ar Ystâd Ddiwydiannol a pharthau yn Rhosmeirch. Disgwyl gwybodaeth am y cam nesaf gan y Cyngor Sir. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

7 **Syrcas 08-11 Awst 2024 :** Lleoliad y Syrcas fydd yn waelod cae Maes Chwarae Maes Hyfryd a bydd taliad yn cael ei dderbyn am hyn. Dim trafodaeth.

8 **Archwiliad RoSPA 2024 :** Canlyniadau boddhaol iawn ar y cyfan eleni. RoSPA wedi tynnu sylw fod mainc wedi ei osod gan Grŵp Ffrindiau Nant y Pandy, yn rhwystro man disgyn y strwythur pren cyfagos a bod angen dileu'r perygl. Bydd y Clerc yn gweithredu ar hyn ac yn gofyn i'r Grŵp drefnu i symud y fainc oherwydd mater iechyd a diogelwch. **Derbyn**

9 **Gwyliau Staff – Awst 2024 :** Yn ystod mis Awst bydd oriau gwaith Staff y Swyddfa yn llai, oherwydd gwyliau blynyddol. Dim trafodaeth. **Derbyn**

24/095 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :

1 **Grŵp Adfywio Llangefni : Cofnodion Cyfarfodydd 23.04.2024 & 18.06.2024 - Wedi eu hatodi i'r Rhaglen - er gwybodaeth;**

2 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned – Cyfarfod Nesaf 18.07.2024;**

3 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn : Cofnodion Cyfarfod 04.04.2024 - Wedi eu hatodi i'r Rhaglen - er gwybodaeth.**

24/096 Cyllid :

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2024 :** Clerc yn datgan fod Cyng. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa i archwilio'r Anfonebau o flaen y Cyfarfod.
Yn dilyn o'r Fantolen Ariannol, Cyng. John Lee yn holi am y taliadau i Gwmni "Tower Leasing". Clerc yn esbonio eu bod yn daliadau misol a chwarterol ar gyfer Les y Llun Gopïwr a Les y Cyfeiriaduron.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2024.

2 **I Dderbyn Cyfrifon Blynyddol a Ddarparwyd gan yr Archwilydd Mewnol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben Mawrth 2022-2023 :** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi ei rannu gyda'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod.Dim cwestiynau wedi codi gan yr Aelodau. **Derbyn**

3 **I Dderbyn Cyfrifon Blynyddol a Ddarparwyd gan yr Archwilydd Mewnol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben Mawrth 2023-2024 :** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi ei rannu gyda'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod. Dim cwestiynau yn codi gan yr Aelodau. **Derbyn**
Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. Ieuan Davies yn Eilio i'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r Adroddiad Blynyddol - Blwyddyn Diweddu Mawrth 2023 a Mawrth 2024. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc weithredu ar hyn ac anfon y Pecyn Llawn ymlaen at Swyddfa Archwilio Cymru.

4 **Ystafelloedd Newid, Lon Newydd :** Wedi ei drafod o dan Eitem 24/094.2 o'r Rhaglen yma.

24/097 Adroddiad Misol : Cyngor Sir Ynys Môn :
Cyng. Nicola Roberts yn ymuno trwy gyfrwng Teams ac yn datgan fod dim byd i'w adrodd yn ôl ganddi. Cadeirydd yn diolch i Cyng. Roberts am ymuno yn y Cyfarfod.

24/098 Gohebiaeth a Materion Newydd : Dim

24/099 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Mehefin 2024 :

1 Un Llais Cymru - Derbyn
2 Materion Eraill - Derbyn

24/100 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Cadeirydd :

1 "Trail Tale" : Cadeirydd wedi rhoi braslun ar gynnwys e-bost ynglŷn â theithiau sain hunan-dywysedig wedi ei gyflwyno gan Gwmni "Trail Tale" a anfonwyd ymlaen i'r Swyddfa gan Cyng. Dylan Rees. E-bost ar gael yn y Swyddfa os bydd angen mwy o wybodaeth. **Derbyn**

2 Materion wedi eu codi gan Cyng. J. Egryn Lewis :
Syrcas : Clerc wedi cadarnhau bydd taliad yn cael ei wneud i'r Cyngor Tref.
Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024 – Eitem 24/090 - Dim wedi cael cyfle i roi sylwadau ymlaen, oherwydd cyrraedd yn hwyr i'r Cyfarfod;
Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 24.06.2024 - Eitem 24/091 - Nodwyd fod y Cyfarfod wedi'i ohirio oherwydd Dim Quorum. Cyng. Lewis yn anfodlon gyda'r drefn nad oedd cyfarfod arall wedi'i drefnu yn syth o fewn dilyniant y cyfarfod a gafodd ei ganslo, ac yn cynnig dylid edrych ar y Rheolau Sefydlog ynglŷn â'r pwynt yma. Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw mai dim ond yn ystod y Cyfarfod Blynyddol yn Mis Mai bydd unrhyw newid yn gallu cael ei wneud i'r rheolau.
Clerc yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod rhestr o holl gyfarfodydd y Cyngor Tref yn cael ei ddosbarthu yn ystod y Cyfarfod Blynyddol, a bod pob Pwyllgor yn cael ei gynnal yn ei drefn briodol trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda SLCC ac Un Llais Cymru ynglŷn â phryder Cyng. Lewis. Cyng. Lewis y gofyn am adborth ysgrifenedig ar hyn. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

24/101 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : 9fed o Fedi 2024.
Cadeirydd yn diolch i'r Aelodau am fynychu'r Cyfarfod heno
ac yn dymuno gwyliau braf i bawb.

CYNG. TERRY JONES
CADEIRYDD